CYFRES B7

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o Genesis

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Genesis 42: 1-26

ADNOD ALLWEDDOL
Galatiaid 6: 7

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.

Stori 1 Brodyr Joseff yn cyrraedd

Digwyddodd popeth fel roedd Joseff wedi dweud. Cafwyd saith mlynedd o gynaeafau da a saith mlynedd o newyn. Roedd bwyd yn brin iawn ond roedd stordai Joseff yn llawn grawn ac roedd yn gwerthu bwyd i bobl. Yng Nghanaan, roedd eisiau bwyd ar deulu Joseff. Pan glywson nhw fod digon o fwyd yn yr Aifft, anfonodd Jacob ei feibion i brynu peth. I ffwrdd â nhw, gan adael eu brawd bach, Benjamin, gartref gyda'i dad.

C Ysgrifennwch CYWIR neu ANGHYWIR ar ôl bob brawddeg:-

Roedd 17 o flynyddoedd o gynaeafau da. .....

Roedd digon o fwyd yn yr Aifft. .....

Nid oedd newyn yng Nghanaan. .....

Benjamin oedd enw brawd bach Joseff. .....

Pan gyrhaeddodd brodyr Joseff i'r Aifft, roedd Joseff yn eu nabod ar unwaith ond wnaethon nhw ddim nabod Joseff. (Roedd dros 20 mlynedd ers iddynt ei werthu.) Ddywedodd Joseff ddim wrthynt pwy oedd e. Fe wnaeth Joseff esgus bod yn grac iawn a siaradodd yn gas â nhw. "Sbïwyr ydych chi," meddai. "Nage, wir," atebon nhw. "Eisiau prynu bwyd ydyn ni." Ond roedd Joseff yn dal i'w cyhuddo nhw.

C **Llanwch y bylchau.** 2

"S _ _ _ _ _ ydych chi," meddai Joseff.

Roedd y brodyr yn teimlo'n flin eu bod nhw'n cael eu cyhuddo fel hyn. Fe wnaethon nhw esbonio eu bod yn perthyn i deulu o 12 o frodyr a bod yr un ieuengaf gartref gyda'u tad ond nad oedd y llall yn fyw.

C **Pa frawd oedd gartref?** 2

B __ __ __ __ __ __ __

C **Am bwy oedden nhw'n sôn wrth ddweud "nid yw'r llall yn fyw"?** 2

J __ __ __ __

Heb ddweud ei fod wedi'u nabod, dywedodd Joseff y byddai'n rhaid iddynt brofi nad sbïwyr oedden nhw. Byddai un ohonyn nhw'n cael ei gadw yn y carchar tra oedd y lleill yn mynd adref â bwyd i'w teuluoedd. Yna, byddai'n rhaid iddynt ddod yn ôl â Benjamin gyda nhw er mwyn i'r un oedd yn y carchar gael dod yn rhydd.

Sgwrsiodd y brodyr ymhlith ei gilydd. "Ai oherwydd beth a wnaethon ni i Joseff slawer dydd y mae Duw yn ein cosbi?" gofynnon nhw.

Mae'n bwysig i ni ddeall bod gwneud rhywbeth anghywir yn arwain i drwbwl. Mae ein pechod yn siwr o ddal i fyny â ni. Mae'r Beibl yn dweud bod hyn fel hau hadau. Mae'r cnwd yr ydym yn ei fedi yn dibynnu ar yr hadau y byddwn wedi'u hau.

"Beth bynnag y mae rhywun yn ei hau, hynny hefyd y bydd yn ei fedi." 6

Galatiaid 6:7. **Lliwiwch y llythrennau.**

Simeon a arhosodd yn yr Aifft. Cafodd ei rwymo mewn cadwynau a'i roi yn y carchar. Dywedodd Joseff wrth ei weision am lenwi sachau'r brodyr eraill â bwyd. Dywedodd wrthynt hefyd am guddio arian y brodyr yn eu sachau! Roedd ganddynt deimladau cymysg iawn wrth gychwyn am adref.

Enw

DARLLENWCH
Genesis 42 i 44

ADNOD ALLWEDDOL
Effesiaid 4: 32

Gofynnwch am help i chwilio a m yr adnod hon.

Stori 2 Benjamin a'r Newyddion Drwg.



Cafodd brodyr Joseff sioc o weld yr arian yn eu sachau bwyd. Roedden nhw'n ofni beth fyddai'n digwydd pe baen nhw'n mynd yn ôl i'r Aifft. Ond, gan fod Simeon yn y carchar, roedd rhaid iddyn nhw fynd.
Fe ddywedon nhw wrth eu tad Jacob, a oedd hefyd yn cael ei alw'n Israel, y byddai'n rhaid i Benjamin fynd gyda nhw. Roedd yr hen ddyn yn drist iawn – roedd arno ofn y byddai rhywbeth yn digwydd i Benjamin.

C Llanwch y bylchau yn enwau tri o feibion Jacob.

6

1) __ __ s __ __ 2) S __ m __ __ __ 3) __ __ __ j __ __ __ n

Yn y pen draw, roedd rhaid i Jacob adael i Benjamin fynd gan nad oedd ganddynt fwy o fwyd. Felly, i ffwrdd â nhw â dwywaith cymaint o arian ac anrhegion i'r 'dyn yn yr Aifft'.

C Ymhlith yr anrhegion roedd:

4





Pan gyrhaeddon nhw, cawson nhw fynd i gartref Joseff. Ar ôl rhoi'r anrheg iddo, fe wnaethon nhw ymgrymu (bowio) o flaen Joseff. (Ydych chi'n cofio beth ddigwyddodd ym mreuddwyd Joseff?) Holodd Joseff ei frodyr am eu tad a siaradodd â Benjamin. Roedd hyn i gyd yn ormod i Joseff: rhuthrodd allan a chrio. Er i'w frodyr fod yn greulon wrtho, roedd yn dal yn eu caru, yn enwedig Benjamin ei frawd bach a oedd yn frawd cyfan iddo. Dylai'r stori hon wneud i ni feddwl cymaint y mae Duw yn ein caru ni a'i fod eisiau maddau i ni am y pethau drwg rydyn ni wedi'u gwneud.

C **Rhowch y geiriau cywir yn y frawddeg isod. (Darllenwch yr Adnod Allweddol).**

maddau maddeuodd

"_ _ __ _ _ i'ch gilydd fel y _ _ __ _ _ _ __ Duw yng Nghrist i chwi"

2

Cyn hir, roedd y brodyr yn barod i gychwyn am adref. Y tro hwn, cuddiodd Joseff ei gwpan arian arbennig yn sach Benjamin. Gadawodd iddynt adael y ddinas ac yna anfonodd ei swyddog ar eu hôl. Daliodd y swyddog i fyny â nhw a'u cyhuddo o ddwyn y cwpan! Roedden nhw i gyd yn gwadu eu bod wedi dwyn y cwpan ac, os oedd un ohonynt wedi ei ddwyn, byddai hwnnw'n gorfod marw! Chwiliodd y swyddog trwy eu sachau ac, yn wir, roedd y cwpan yn sach fwyd Benjamin. Roedden nhw mewn trwbwl! Sut allen nhw fynd yn ôl at eu tad heb Benjamin? Roedden nhw'n siwr bod Duw yn eu cosbi am fod mor gas wrth Joseff slawer dydd. Mae'n beth ofnadwy pan fydd pobl yn torri deddfau Duw ac yna'n gorfod byw gyda'r hyn y maen nhw wedi'i wneud! Mae Duw yn barod i faddau i ni os ydyn ni'n edifarhau am ein pechodau ac yn ymddiried yn Iesu Grist sydd wedi marw i gymryd ein pechodau ni.





C **Llanwch y Grid Geiriau:-**

1. Brawd Joseff oedd â'r un tad a'r un fam ag ef.
2. Un o enwau tad Joseff.
3. Enw arall tad Joseff.
4. Y brawd a gafodd ei gadw yn y carchar.

1				J				
2				O				
		3		S				
4				E				
				FF				

8

Enw

DARLLENWCH
Genesis 45: 1-28

ADNOD ALLWEDDOL
Genesis 45: 8

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.

Stori 3 Maddeuant a Newyddion Da

Pan ddaeth y swyddog o hyd i gwpan arian Joseff yn sach Benjamin, bu'n rhaid i'r brodyr i gyd fynd yn ôl at Joseff. Roedd e'n esgus bod yn grac iawn. Ymhen tipyn dywedodd na fyddai'n rhaid i'r un ohonyn nhw farw ond y byddai Benjamin yn dod yn gaethwas iddo. Byddai'r lleill yn cael mynd adref at eu tad.

Pan glywson nhw hyn, roedden nhw'n gofidio'n ofnadwy ac fe gynigiodd Jwda fynd yn gaethwas yn lle Benjamin. Esboniodd Jwda wrth Joseff y byddai eu tad yn marw o dor calon pe na bai Benjamin yn dod adref yn ddiogel.
(Mae'r rhan hon o'r stori yn Genesis 44: 14-34)

C Tanlinellwch y gair cywir ym mhob brawddeg.

Roedd y cwpan arian yn sach **Jwda / Simeon / Benjamin.**

Cynigiodd **Reuben / Simeon / Jwda** fynd yn gaethwas yn lle Benjamin.

Doedd **Benjamin / Joseff / Jwda** ddim wedi dweud wrth ei frodyr pwy oedd e.

6

Ar ôl i Jwda orffen siarad, gallai Joseff weld yn glir bod ei frodyr wedi newid. Roedden nhw'n poeni mwy am ei gilydd ac am eu tad oedrannus. Daeth yr amser i ddweud wrthynt pwy oedd e! Gofynnodd i bawb arall adael yr ystafell.

Yna, dywedodd wrth ei frodyr,

"Joseff wyf i"

Lliwiwch y llun a'r llythrennau.

4

Roedd ei frodyr yn methu credu eu clustiau! Roedden nhw wedi cael cymaint o sioc fel na allen nhw siarad. Roedd Joseff dan deimlad a dechreuodd grïo, yn enwedig wrth gofleidio ei frawd, Benjamin.

Maddeuodd Joseff i'w frodyr am ei werthu flynyddoedd lawer yn ôl. Yn wir, dywedodd mai cynllun Duw oedd hynny. Duw oedd wedi ei anfon i'r Aifft er mwyn achub bywyd ei deulu pan ddaeth y newyn. Dyna dda oedd Joseff i feddwl am y peth fel yna.

C Llanwch y geiriau sydd ar goll i ddangos beth a ddywedodd Joseff wrthynt.

Duw chwi hanfonodd yma

"Nid _ _ _ _ ond _ _ _ _ a'm _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _."



Roedd pum mlynedd o'r newyn ar ôl ac fe feddyliodd Joseff am gynllun. Dywedodd wrth ei frodyr am frysio adref a dweud wrth eu tad bod Joseff wedi dod yn ddyn pwysig iawn. Yna, roedden nhw i gyd i fod i ddod yn ôl i'r Aifft. Addawodd Joseff y byddent yn cael tir mewn rhan o'r Aifft o'r enw Gosen. Byddai ef yn sicrhau eu bod yn iawn tan ddiwedd y newyn.

C Ysgrifennwch CYWIR neu ANGHYWIR ar ôl y brawddegau hyn.

Roedd Gosen yn rhan o'r Aifft. .....

Byddai'r newyn yn para am dair blynedd arall. .....

Byddai Jacob a'i deulu cyfan yn dod i'r Aifft. .....

Felly, roedd Joseff a'i frodyr yn ffrindiau unwaith eto. Mae Duw eisiau i ni fod yn ffrindiau ag ef, er ein bod ni wedi pechu yn ei erbyn. Er mwyn hyn, daeth Iesu o'r Nefoedd i farw dros ein pechodau ni. Ydych chi wedi derbyn Iesu yn Waredwr? Os ydych chi, mae popeth yn iawn rhyngoch chi a Duw.

Enw

DARLLENWCH
Genesis 46: 1-34

ADNOD
ALLWEDDOL
Genesis 50: 20

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.

Stori 4 Gyda'i Gilydd yn yr Aifft

Pan gyrhaeddodd brodyr Joseff yn ôl i Ganaan, y peth cyntaf oedd ganddynt i'w wneud oedd dweud wrth eu tad bod Joseff yn fyw a'i fod yn rheolwr yr Aifft gyfan. Doedd Jacob (neu Israel i ddefnyddio ei enw arall) yn methu credu hyn nes iddo weld y wageni a anfonodd Joseff i'w gario i Gosen, sef y rhan o'r Aifft lle byddai'n mynd i fyw.
Cyn hir, dechreuon nhw baratoi ar gyfer y daith hir. Roedd rhaid pacio popeth a chrynhoi'r holl anifeiliaid. Wedyn, roedd rhaid cael y gwragedd a'r plant yn barod ac, erbyn y diwedd, roedden nhw'n dyrfa fawr!

C Llanwch y bylchau yn y brawddegau hyn:-

Roedd gan dad Joseff DDAU enw, J _ _ _ _ ac I _ _ _ _ _.

Anfonodd Joseff w _ _ _ _ _ i gario ei dad i'r Aifft.

Roedden nhw'n mynd i ran o'r Aifft o'r enw G _ _ _ _.

8

Pan gyrhaeddon nhw le o'r enw BEERSEBA, siaradodd Duw â Jacob mewn gweledigaeth yn y nos. Dywedodd Duw wrtho am beidio ag ofni mynd i'r Aifft gan fod ganddo gynllun i'w wneud yn genedl fawr yno. Addawodd Duw y byddai gydag ef a dweud y byddai'n cwrdd â'i fab coll, Joseff, yno.

C Rhowch y llythrennau hyn yn y drefn gywir:-

Siaradodd Duw â Jacob yn ESREABEB __ __ __ __ __ __ __ __ .

Addawodd Duw wneud Jacob yn DENGEL fawr __ __ __ __ __ __ .

Yn yr Aifft, byddai Jacob yn cwrdd â'i fab OJFFES __ __ __ __ __ .

6

Pan gyrhaeddodd Jacob a'i deulu mawr i Gosen, aeth Joseff yn ei gerbyd i gwrdd â'i dad. Roedd yn foment fawr!



Rhoddodd Joseff ei freichiau o gwmpas ei dad ac wylo am amser hir! Mae'n siwr fod ganddynt lawer i'w ddweud wrth ei gilydd! Roedd dros 22 o flynyddoedd ers i Joseff adael cartref!
Pan ddywedodd Joseff wrth y brenin Pharo fod ei dad a'i frodyr wedi dod, anfonodd y brenin amdanynt ac fe gawsant eu cyflwyno iddo. Rhoddodd groeso mawr iddynt a gadael iddynt fyw yn Gosen.

C Ysgrifennwch CYWIR neu ANGHYWIR ar ôl bob brawddeg:-

Doedd Joseff ddim wedi gweld ei dad ers saith mlynedd. .....

Wylodd Joseff am amser hir pan gafodd weld ei dad eto. .....

Doedd y brenin Pharo ddim yn fodlon i Jacob aros yn ei wlad. .....

3



Dyna ddiwedd hapus sydd i'r stori! Roedd y teulu i gyd gyda'i gilydd unwaith eto ac roedden nhw'n hapus.
Roedd Joseff yn credu mai Duw oedd wedi trefnu popeth oedd wedi digwydd er mwyn achub bywydau ei deulu yn ystod y newyn.

Chwiliwch am yr Adnod Allweddol yn y Beibl a darllen beth ddywedodd Joseff.

Gallwn ninnau hefyd ddibynnu ar Dduw i droi sefyllfa ddrwg yn dda os gwnawn ni ymddiried ynddo.

3

Lliwiwch y llun hwn o Joseff gyda Jacob a Benjamin.

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

SAFON 2 B7

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120